

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Talylychau nos Fawrth, 3 Hydref 2017. Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd), Nigel Lovatt, Pauline George, Janine Roberts, Sarah Walters, y Cynghorydd Sir Joseph Davies, a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: John Williams a Rhys Williams. Roedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Roger Anthony, yn bresennol rhwng 8pm ac 8.15pm.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion sy'n codi.

Toiledau Cludadwy. Ni chafwyd ymateb hyd hynny gan Ysgol Gynradd Talylychau. Cytunwyd i adael y mater tan y byddai penderfyniad yn dod i law ganddynt.

Toiledau Cyhoeddus.

Roedd Dogfennau Les wedi cael eu hanfon ymlaen at y Cynghorwyr trwy e-bost. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai neges e-bost yn cael ei hanfon i Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin, yn ymholi am y cyfyngiadau a allai wynebu'r Cyngor Cymuned petai am roi'r gorau i'r les ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Unwaith y byddai ymateb yn dod i law, byddai'r Clerc yn anfon yr holl waith papur at Un Llais Cymru am gymorth cyfreithiol, gan ofyn iddynt wirio'r les cyn y câi ei lofnodi. Byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau gyda chwmni Zurich am yswiriant.

Y Cae Cymunedol a'r Cae Chwarae. Cafwyd adroddiad am gyfarfod safle a gynhaliwyd ar 25 Medi 2017. Yn bresennol yr oedd: Y Cynghorwyr Janine Roberts, Nigel Lovatt a Jane Morgan (Clerc), Alana Walker (Ysgol Gynradd Talylychau), a Gareth Howells (Cyngor Sir Caerfyrddin). Trafodwyd y canlynol: 1. Mynediad i'r Cae Chwarae. 2. Ffiniau'r Cae Chwarae. 3. Arwyddion 'Ni Chaniateir Cŵn'. Byddai Gareth Howells yn archwilio'r materion hyn, ac yn adrodd yn ôl amdanynt. Esboniodd Sam Ellis o Felinau Llifio Talylychau, yn garedig, pam yr oeddent wedi gosod arwyddion i gau'r llwybr, a hynny am resymau diogelwch wrth i weithiau gael eu cynnal. Y Clerc i gysylltu â Gareth Howells, Cyngor Sir Caerfyrddin, am ddiweddariad pe na fyddai ymateb wedi dod i law erbyn 26 Hydref 2017.

Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Is-ddeddf) i wahardd cŵn o fannau chwarae. Cytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y byddai ymateb yn dod i law gan Gareth Howells.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn holi Gareth Howells a oedd wedi dod o hyd i gopi o'r Trawsgludiad ar gyfer y cae sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Os nad oedd wedi dod o hyd i gopi, byddai'r copi ym meddiant y Cyngor Cymuned yn cael ei anfon ymlaen ato. Cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at Gareth Howells yn nodi fod gan y Cyngor Sir Fynedfa Gyfreithiol i Gerbydau ar hyd y trac i'r cae, ac am hynny, bod y Cyngor Cymuned yn galw arnynt i ddefnyddio'r trac hwnnw yn y dyfodol er mwyn cyrraedd eu cae, yn hytrach na gyrru ar hyd y cae sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned.

Y Cae Cymunedol.

Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi. Copi swyddogol o'r Gofrestr Teitlau dan sylw. Rhif Teitl. CYM430072.

Gwaith cynnal a chadw'r offer chwarae, ac ati. Cytunwyd i gynnal cyfarfod safle ar y Cae Cymunedol ddydd Iau, 19 Hydref 2017, am 11am.

Diffibrilwyr.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Richard Evans, o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i roi gwybod iddo ei bod bellach yn fater o frys fod y Cyngor yn cael caniatâd o ran lle y gellir gosod y diffibriliwr yng Nghwmdu.

Asedau. I'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

F. C. Lewis, am dorri'r glaswellt deirgwaith yn y Cae Cymunedol, £414.00.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Talylychau, am dorri'r glaswellt deirgwaith ym mynwent Eglwys San Mihangel, £2,250.00.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Treth, £30.20.

Sarah Walters, Clerc y Fynwent, £10.00.

Llythyr o ddiolch gan Wyn Edwards ac Ysgol y Cwm, Trevelin, Patagonia am rodd o £50.

Dosbarthwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Addurniadau Tymhorol.

Llythyr gan Un Llais Cymru ynghylch Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin ar 4 Hydref 2017, ym Mhorth Tywyn.

Llythyr gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Hysbysiadau i gael eu gosod ar y ddau hysbysfwrdd.

Llythyr gan Bennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghylch cau'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yn Llangadog, gan nodi fod y Cyngor yn cynnal adolygiad i ddyfodol darparu'r gwasanaeth yn yr ardal.

Ceisiadau Cynllunio.

Roedd ateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau ei fod wedi diweddarau'r manylion ymgynghori â chyfeiriad e-bost, gan nodi na fydd yn gallu anfon y dogfennau cais trwy'r post, am ei fod yn gweithredu system ddi-bapur.

Nodwyd bod yr ysgol wedi clirio'r domen gompost yn y fynwent a oedd yn cynnwys gwydr, plastig ac oasis, a'r rheiny'n gymysg â thoriadau'r glaswellt. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn trefnu i gael dyfynbris am arwydd gan Eirwyn Moses, er mwyn rhoi hysbysiad yno. "DIM YSBWRIEL YMA OS GWELWCH YN DDA. NO RUBBISH HERE PLEASE".

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 10pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 7 Tachwedd 2017, am 7.30pm.